



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Hanfodion Cofrestru Myfyrwyr

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol
am eich cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
Gaeaf 2018




Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Canllaw ac allwedd defnyddwyr


- Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am destunau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol
- Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati
- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen gyswllt at y wefan honno. Gallwch glicio ar y botwm  ar unrhyw adeg i fynd yn ôl at y dudalen gynnwys




mynd nôl
at y dechrau



mynd at
y dudalen gynnwys



mynd at
y dudalen flaenorol



mynd at
y dudalen nesaf



Mae'r canllaw hwn am eich cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'n dweud wrthyfch yr hyn y mae angen i chi ei wybod a ble gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth. A oeddech chi'n gwybod:

- gan eich bod wedi cofrestru, gallwch ddod o hyd i'ch enw nawr ar y **Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**
- gallwch ganfod mwy amdanom ni ar ein **gwefan**
- gallwch ein dilyn a'n trydar ar Twitter **@gofcymdeithasol** 
- gallwch fynd i'n tudalen Facebook yn **facebook.com/CareCareersWales** 

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol cofrestredig. Os nad ydych wedi cofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol, gweler y ddogfen hanfodion cofrestru yn adran adnoddau cofrestru eich cyfrif GCCarlein.

Y tu mewn i'r canllaw hwn Cliciwch ar benawdau'r tudalennau i lywio at y dudalen berthnasol

Croeso i'r Gofrestr	4
Y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol	5
Gofalu â Balchder	6
Deddfwriaeth bwysig	7
Addasrwydd i ymarfer	8
GCCarlein – ein gwasanaethau ar-lein	9
Cofrestriad digidol	10
Ap Cofrestru newydd	11
Eich taith i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol	12
Eich cyfrifoldeb i ddiweddarau eich manylion cofrestru	13
Cyfnod cofrestru a ffioedd	14
Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol	15
Ariannu myfyrwyr	16
Eich cynorthwyydd cofrestru	17
Mwy na geiriau	19
Cwblhau eich cwrs	20
Gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol	20
Manylion cyswllt	21

Os oes angen y canllaw hwn arnoch mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'n tîm cofrestru. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar dudalen 21.

 Gellir clicio ar ddelweddau yn y canllaw hwn i agor y ddogfen neu'r dudalen we



Croeso i'r Gofrestr yng Nghymru

Llongyfarchiadau ar ymgymryd â'r cam cyntaf yn eich gyrfa fel gweithiwr cymdeithasol.

Trwy gofrestru, rydych yn cadarnhau eich statws proffesiynol trwy ymrwymo i:

- ategu'r safonau yn y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol bob amser
- diweddarau eich cofrestriad, eich manylion cyswllt a'ch manylion cyflogaeth yn rheolaidd

Rydym yn arwain ystod o waith i ddatblygu a chynorthwyo unigolion a'r proffesiwn yn gyffredinol. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i roi i ni. Byddwn yn rhannu gwybodaeth trwy ein cyfrif Twitter, cyfrif Facebook a'n gwefan hefyd. Byddwn yn dweud wrthyich am y canlynol:

- cyhoeddiadau newydd, fel dogfennau canllawiau ar ymarfer – mae'r rhain yn dweud wrthyich yn fanylach beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch yn eich rôl gofal cymdeithasol
- unrhyw fforymau neu rwydweithiau sy'n berthnasol i chi – mae'r rhain yn aml yn gyfle i drafod datblygiad proffesiynol, rhannu ymarfer da a chyfarfod â phobl broffesiynol eraill
- y gweithlu – fel rhan o'n rôl, byddwn yn darparu gwybodaeth am y sector, gan gynnwys ystadegau a thueddiadau, a gellir defnyddio'r rhain ar gyfer dysgu a chynllunio'r gweithlu
- dogfennau rydym yn eu cyhoeddi – mae'r rhain yn esbonio effaith deddfwriaeth neu newidiadau pwysig eraill yn y sector y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae yna lawer o heriau, ond llawer o gyfleoedd hefyd.

Pob lwc â'ch astudiaethau.

Y Gofrestr gyhoeddus

Fel unigolyn cofrestredig, gallwch weld eich enw ar y gofrestr gyhoeddus (y Gofrestr) nawr. Mae'r Gofrestr ar gael ar-lein a bydd enw unrhyw un sydd wedi'i gofrestru i ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd yn ymddangos. Mae'r Gofrestr yn dangos:

- eich enw llawn a'ch teitl
- eich rhif cofrestru
- y sir ble rydych yn astudio
- ar ba ran o'r Gofrestr rydych chi
- y dyddiad y cawsoch eich cofrestru
- gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer, er enghraifft penderfyniadau a chydymffurfiaidau.



Y Rheolau Cofrestru

Mae'r Rheolau Cofrestru wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, a nhw yw'r sail gyfreithiol ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Gellir eu gweld trwy ein gwefan:

gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/beth-yw-cofrestru



Y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côt) yn amlinellu'r safonau, neu'r rheolau, ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol gofal a'r myfyrwyr gwaith cymdeithasol yng Nghymru.


Mae'n rhoi meini prawf i arwain eich ymarfer a'ch eglurder am y safonau ymddygiad y disgwylir i chi eu bodloni. Rydych chi'n gyfrifol am wneud yn siŵr eich bod yn gweithio yn unol â'r safonau hyn bob amser ac nad oes unrhyw weithred nac esgeulustod ar eich rhan chi yn niweidio llesiant unigolion.

Byddwn yn ystyried y Côt wrth ystyried materion addasrwydd i ymarfer, a byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r Côt. Gweler tudalen 8 am fwy o wybodaeth.

Fe wnaethoch gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y Côt fel rhan o'ch cofrestrriad. Mae'r Côt a'r dolenni i'r ap ffôn symudol ar ein **gwefan**.

Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

1. Barchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a diddordebau unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr tra'n eu cynorthwyo i aros yn ddiogel.
4. Parchu hawliau unigolion tra'n ceisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidiol iddyn nhw eu hunain na phobl eraill.
5. Gweithredu ag uniondeb a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1 i 6, os ydych chi'n gyfrifol am reoli neu arwain staff, rhaid i chi ymgorffori'r Côt yn eu gwaith.





Gofalu â Balchder

Nod ein hyfforddiant Gofalu â Balchder yw codi ymwybyddiaeth am y Côd a helpu i chi ymgorffori ei egwyddorion yn y gweithle.

Gall manteisio ar yr adnoddau Gofalu â Balchder am ddim yn ein **Man Dysgu** ar-lein helpu i chi gymhwyso ei egwyddorion mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Mae'r adnoddau am ddim yn cynnwys fideo, llyfr gwaith a phrawf gwybodaeth aml-ddewis. Trwy gael o leiaf wyth o 10 cwestiwn y prawf yn gywir, byddwch yn cael tystysgrif Gofalu â Balchder yn cydnabod eich dealltwriaeth o'r Côd a'ch ymrwymiad i Gofalu â Balchder.



Geraint Jones, myfyriwr gwaith cymdeithasol o Wynedd, oedd y cyntaf i orffen y prawf Gofalu â Balchder a chael tystysgrif.

"Rydw i wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol am y 10 mlynedd ddiwethaf ac wedi gweithio mewn nifer o rolau cyn dechrau fy ngradd gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr," meddai. "Mae wedi helpu â'm gwybodaeth am y Côd fel myfyriwr, ond rydw i'n meddwl y bydd yr un mor berthnasol i rywun sydd wedi bod yn y proffesiwn ers nifer o flynyddoedd."

Mae Geraint wedi bod yn rhoi'r gair ar led, gan ddangos pa mor gyflym a hawdd yw cymryd rhan.

"Bydd pobl o bob lefel yn bendant yn elwa ar y llyfr gwaith a'r prawf," ychwanegodd. "Fe wnes i eu cwblhau am resymau personol i wneud yn siŵr fy mod i mor wybodus ag y bo modd, ond bydd yn fuddiol i'm hastudiaethau hefyd. Mae fy athro yn dweud bod y dystysgrif yn gallu cael ei defnyddio fel tystiolaeth yn fy adroddiad terfynol."

"Roedd yn hawdd mynd at y Man Dysgu, ac roedd yn hawdd ei ddefnyddio. Mae'r cyfan yn syml iawn. Mae'r llyfr gwaith yn cwmpasu popeth mae angen i chi ei wybod ymlaen llaw, felly dylai'r prawf ddim bod yn rhy anodd. Rydw i eisoed wedi argymhell Gofalu â Balchder i gydweithwyr a phobl eraill ar fy nghwrs, ac rydw i'n credu y dylai pobl eraill wneud hynny hefyd. Po fwyaf o bobl sy'n wybodus am Gofalu â Balchder, yna gorau i gyd."

Ewch at ein **Man Dysgu** i gwblhau'r llyfr gwaith a'r prawf. Rhowch y gair ar led trwy drydar llun â'ch tystysgrif i **@GofCymdeithasol**, gan ddefnyddio'r hashnod #CaringwithPride.



Deddfwriaeth bwysig

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n:

- sicrhau bod pobl a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, gan roi mwy o lais a rheolaeth iddynt dros y gofal a gânt
- annog pobl i gael cyngor a chymorth yn gynharach i gynnal ansawdd bywyd da a lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth tymor hwy
- cynorthwyo pobl er mwyn iddynt allu sicrhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau
- cynnwys pobl mewn cynllunio a darparu'r cymorth a'r gwasanaethau a gânt, gan gydnabod y wybodaeth a'r arbenigedd y gallant eu cynnig.

Rydym wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol i gefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith.

Fel rhan o'r fenter hon, rydym wedi datblygu **Hyb Gwybodaeth a Dysgu**, sef siop un stop ar gyfer yr ystod eang o ddeunyddiau dysgu a gynhyrchwyd i helpu gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd a gwirfoddol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Daeth *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* yn gyfraith ar 18 Ionawr 2016, a daeth i rym yng Nghymru o fis Ebrill 2017.

Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n canolbwyntio ar effaith y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn. Crëwyd Gofal Cymdeithasol Cymru yn sgil y Ddeddf hefyd, gan ddod â Chyngor Gofal Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol at ei gilydd fel un sefydliad, gyda chylch gwaith ehangach.

Addasrwydd i ymarfer

Addasrwydd i ymarfer – beth mae’n ei olygu?

Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan weithiwr y sgiliau, y wybodaeth, y cymhwysedd a’r cymeriad priodol sydd eu hangen i ymarfer yn y sector gofal cymdeithasol.

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion ble mae amheuaeth ynghylch addasrwydd unigolyn i ymarfer. Gallai hyn gynnwys achosion lle caiff ymddygiad unigolyn cofrestredig effaith negyddol ar lesiant a diogelwch unigolyn neu’r proffesiwn. Gallai hyn gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol.

Paneli addasrwydd i ymarfer

Fel arfer, cynhelir paneli addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus.

Pa wybodaeth sy’n cael ei rhoi ar ein gwefan am addasrwydd i ymarfer?

Bydd gwybodaeth am rybuddion, ymgymeriadau a symudiadau trwy gytundeb a wnaed gan swyddogion addasrwydd i ymarfer. Bydd cosbau fel deilliannau o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer hefyd.

gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer

Mae manylion am wrandawiadau cyhoeddus sydd ar fin digwydd wedi’u cyhoeddi yn:

gofalcymdeithasol.cymru/gwrandawiadau-i-ddod

Caiff manylion am ganlyniad gwrandawiadau cyhoeddus eu cyhoeddi ar ein gwefan am gyfnod penodol o dan y pennawd canlyniadau gwrandawiadau: gofalcymdeithasol.cymru/rhestr-dysgu

Ar ôl i warediad ddod i ben, caiff y rhesymau eu dileu oddi ar y wefan, ond mae’r penderfyniad yn parhau yn amhendant.

Gellir cael mwy o wybodaeth am addasrwydd i ymarfer yn:

gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer



GCCarlein – ein gwasanaethau ar-lein

Gellir mynd at eich GCCarlein trwy ein gwefan trwy glicio ar y botwm yma neu drwy fynd i **GCCarlein**



Mewngofnodi i GCCarlein

Gwasanaethau arlein ar gyfer ymgaiswyr, unigolion cofrestredig, llofnodwyr, Arolygwyr AGGCC ac aelodau'r Bwrdd.

Gallwch:

- weld eich cofnod cofrestru personol
- talu eich ffioedd
- diweddarau eich manylion cyflogaeth
- gweld a dangos prawf o'ch cofrestriad i bobl eraill
- diweddarau eich manylion personol
- gweld dyddiadau y mae eich taliad blyneddol yn ddyledus
- edrych ar wybodaeth am daliadau blaenorol
- gweld gwybodaeth am eich bwrsari (os yw'n berthnasol)
- darllen canllawiau a gwybodaeth bwysig yn eich ffolder adnoddau cofrestru.

Byddwn:

- yn cysylltu â chi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost personol a roesoch i ni gyda gwybodaeth am eich cofrestriad, ac yn eich gwahodd i gymryd rhan yn ein gweithgareddau
- yn rhoi cofnod cyfoes a chlir o'ch cofrestriad i chi
- yn sicrhau bod eich cofnod ffioedd yn gyfoes
- yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chasglu o'r Gofrestr i gynhyrchu ystadegau, adroddiadau a dogfennau canllawiau i helpu'r gweithlu.

Diogelu data

Rydym wedi cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae ein datganiad diogelu data ar gael ar **GCCarlein**.



Cofrestriad digidol

Byddwn yn defnyddio cyfathrebu digidol, fel yr e-bost a negeseuon testun, pryd bynnag y bo modd gan mai dyma'r ffordd orau o roi gwasanaeth cyflym a defnyddiol i chi. Mae'r rhan fwyaf o bobl gofrestredig yn cyfathrebu â ni gan ddefnyddio GCCarlein a'r e-bost.



Mae ein **Man Dysgu** yn rhoi mynediad i chi at wybodaeth ac adnoddau rhyngweithiol.

Gallwch anfon neges e-bost at y tîm cofrestru, sef: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**

Ap Cofrestru newydd

Rydyn ni wedi lansio ap newydd am ddim, lle y gallwch chi weld y wybodaeth ganlynol pan nad ydych chi ar-lein:

- Cymwysterau
- Ffioedd
- Pwy sydd angen cofrestru
- Sut i wneud cais ac adnewyddu cofrestriad.

Rydych chi hefyd yn gallu gweld ein tudalennau gweithiwr gofal cymdeithasol.

Lawrlwythwch yr ap o **Google Play** neu'r **Apple Store** trwy ddefnyddio un o'r dolenni isod (mae'n rhaid eich bod chi'n defnyddio ffôn symudol neu dabled i lawrlwytho'r ap).


Google Play: <https://play.google.com/store/apps/details?id=wales.socialcare.Registration>

Apple: <https://itunes.apple.com/ao/app/registration-cofrestru/id1416711119?mt=8>

Byddem yn diweddarau'r ap dros amser i sicrhau eich bod chi'n cadw'n gyfoes gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.



Eich taith i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol



Eich cyfrifoldeb i ddiweddaru eich manylion cofrestru

Eich cyfrifoldeb chi yw diweddaru eich manylion gan eu bod yn galluogi i chi ymarfer ac aros wedi cofrestru.

Mae eich cyfeiriad e-bost yn allweddol i ni allu cysylltu â chi. Byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt i anfon nodiadau atgoffa atoch pan fydd eich ffioedd yn ddyledus a rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau, gwybodaeth gyfredol, fforymau a gofyn eich barn ar gyfer ein hymgyngoriadau. Os na fyddwch yn dweud wrthym am newidiadau i'ch manylion personol, gellir ystyried hyn yn gamymddwyn, a gallai arwain at eich cyfeirio at ein tîm addasrwydd i ymarfer.

Newidiadau y mae'n **rhaidd** i chi ddweud wrthym amdanynt:

- manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost personol, cyfeiriad cartref a rhif ffôn symudol
- newid i'ch cyflogaeth fel teitl swydd, rheoli gwasanaeth gwahanol, cyfeiriad gwaith
- unrhyw newid i'ch cofnod troseddol neu'ch cofnod disgyblu
- unrhyw newid i'ch iechyd sy'n effeithio ar eich gwaith ym maes gofal cymdeithasol
- cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall, er enghraifft y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**
- newid enw neu deitl – dylech gofrestru yn yr enw rydych yn cael eich adnabod wrtho yn y gwaith er mwyn i bobl allu eich adnabod ar y Gofrestr.

Pa dystiolaeth sydd ei hangen:	
Newid	Newid enw
Newid enw	Llungopi gwiriedig o'ch tystysgrif priodas, partneriaeth sifil, neu weithred newid enw

Sut i ddweud wrthym

Gallwch weld eich manylion cofrestru a'u diwygio ar-lein trwy GCCarlein. Gellir sganio dystiolaeth ddogfennol o newid a'u llwytho trwy **GCCarlein**.

Cyfnod cofrestru a ffioedd

Byddwch yn aros ar y Gofrestr tra rydych yn fyfyrwr ar eich cwrs gwaith cymdeithasol neu am hyd at wyth mlynedd o'ch dyddiad cofrestru, pa bynnag un yw'r cynharaf.

Disgwylir eich ffi gofrestru o £15 bob blwyddyn ar ben-blwydd eich cofrestriad. Byddwn yn eich atgoffa bod y ffi hon yn ddyledus gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost rydych wedi'i roi i ni, felly mae'n bwysig ei ddiweddarau. Ni fydd y ffi yn cael ei had-dalu os byddwch yn gadael y Gofrestr ar ganol y flwyddyn.

Os byddwch yn gadael eich cwrs, bydd angen i chi roi gwybod i ni, felly os yw'n briodol, gallwn ddileu eich enw oddi ar y Gofrestr. Os byddwch yn mynd yn ôl i ddilyn gradd gwaith cymdeithasol gymeradwy wedyn, gallwch ailymgeisio i roi eich enw ar y Gofrestr yn eich cyfrif GCCarlein.

Talu eich ffioedd

Debyd Uniongyrchol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn haws talu trwy Ddebyd Uniongyrchol gan ei fod yn ffordd ddibynadwy a diogel o dalu eich ffi cofrestru yn brydlon bob tro.

Yn **GCCarlein**, gallwch:

- weld cofnod o'ch taliad a derbynebaw, a'u hargraffu
- trefnu talu trwy Ddebyd Uniongyrchol
- gwneud taliad newydd

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ffioedd cofrestru ar ein gwefan, sef:

gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd-cofrestru



Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Beth yw'r fframwaith DAPP?

Cyfres o raglenni dysgu ac addysg proffesiynol parhaus yw'r fframwaith DAPP, sy'n arwain at gymwysterau ychwanegol i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol cymwys wrth iddynt ddatblygu trwy eu gyrfaedd ac ymgymryd â rolau newydd.

Beth yw'r rhaglenni DAPP ac ar gyfer pwy maen nhw?

Mae'r fframwaith DAPP yn cynnwys pedair rhaglen, sef:

Y rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso	Hon yw rhan cyntaf y fframwaith DAPP. Mae'r rhaglen hefyd yn ran o'r Tair blynedd gyntaf o ymarfer . Cynlluniwyd y rhaglen i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i gyfnerthu a datblygu arbenigedd wrth iddynt drosglwyddo o fod yn berson graddedig gwaith cymdeithasol i ymarferwr cymwys. Mae rhaid i weithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso ar ôl 2016 cwblhau'r rhaglen hon erbyn iddyn nhw adnewyddu eu cofrestrriad ar ôl tair mlynedd.
Y rhaglen ymarfer profiadol mewn gwaith cymdeithasol	Cynlluniwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf ddwy flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso. Nod y rhaglen yw gwella ymarfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ymhellach, trwy fyfrio'n feirniadol ar feysydd penodol ymarfer gwaith cymdeithasol.
Y rhaglen uwch ymarfer mewn gwaith cymdeithasol	Cynlluniwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso, gan ymarfer ar lefel fwy cymhleth a goruchwyllo pobl eraill. Nod y rhaglen yw gwella ymarfer gweithwyr cymdeithasol gyda ffocws ar arweinyddiaeth ac ymchwil broffesiynol.
Y rhaglen gwaith cymdeithasol ymgynghorol	Cynlluniwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf bum mlynedd o brofiad gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso mewn rolau arbenigol, sy'n cynnwys ymarfer cymhleth, ymgynghoriaeth ar faterion ymarfer, addysg a hyfforddiant, a/neu arwain ymchwil a datblygu ymarfer. Nod y rhaglen yw gwella cyfraniad gweithwyr cymdeithasol at ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon uchel, a gwella a datblygu gwasanaethau.

Mae cyllid ar gael i gefnogi cyfranogiad yn y rhaglenni hyn, a dylai darpar ddysgwyr siarad â'u cyflogwyr am fynediad, a chyfleoedd ar gyfer cyllid.

Y fframwaith DAPP a'r Rhaglen Gadarnhau: gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-gwaith-cymdeithasol. Rhaglenni eraill: www.cpel.ac.uk/cy/



Ariannu myfyrwyr

Os ydym wedi dyfarnu bwrsari i chi, mae'r adran hon yn berthnasol i chi.

Wedi i'n tîm cyllid a grantiau myfyrwyr gael cadarnhad eich bod wedi cofrestru gyda ni fel myfyriwr gwaith cymdeithasol, ac wedi cael cadarnhad gan eich prifysgol eich bod wedi'ch cofrestru ar eich cwrs, byddwch yn derbyn rhandaliad cyntaf eich bwrsari.

Os ydych wedi cael eich enwebu ar gyfer y bwrsari, a bod y bwrsari wedi cael ei ddyfarnu i chi, byddwch yn gymwys i dderbyn y bwrsari am gyfnod eich cwrs, sef £2,500 am dair blynedd os ydych yn fyfyrwr israddedig, a £6,640 am ddwy flynedd os ydych yn fyfyrwr ôl-raddedig. Fodd bynnag, rhaid i chi lenwi Ffurflen Adnewyddu Bwrsari cyn dechrau eich ail a'ch trydedd flwyddyn i dderbyn y bwrsari. Byddwn yn anfon neges e-bost atoch pan fydd y ffurflenni ar gael i'w llenwi, ac yn eu cyflwyno ar GCCarlein. Mae hyn fel arfer yn digwydd oddeutu mis Mehefin bob blwyddyn.

Gall myfyrwyr ôl-raddedig wneud cais am Grantiau a Lwfansau a Asesir yn ôl Incwm (IAGA). Caiff y rhain eu hasesu a'u dyfarnu yn ôl incwm, yn dibynnu ar incwm eich cartref. Os hoffech wneud cais am elfennau Lwfans Dysgu Rhieni, Grant Gofal Plant neu Grant Oedolion Dibynnol IAGA, cysylltwch â'r tîm cyllid a grantiau myfyrwyr cyn gwneud cais i wneud yn siwr eich bod yn gymwys. Rhaid i chi lenwi a chyflwyno ffurflen IAGA newydd bob blwyddyn rhag ofn fod incwm eich cartref wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Os byddwch yn gohirio eich astudiaethau ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn academiaidd, byddwch ddim ond yn derbyn gweddill y bwrsari y mae gennych hawl i'w gael pan fyddwch yn dychwelyd i gwblhau'r flwyddyn academiaidd honno. Hynny yw, ni allwch dderbyn mwy na £2,500 neu £6,640 tra'n cwblhau unrhyw flwyddyn academiaidd. Bydd rhaid i chi hefyd ad-dalu unrhyw fwrsari nad oedd gennych hawl i'w gael ar ôl y dyddiad olaf y gwnaethoch fynychu'r cwrs neu dynnu'n ôl o'r cwrs yn barhaol.

Byddwch yn derbyn eich Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY) cychwynnol cyn i chi ddechrau eich cyfle dysgu ymarfer. Bydd y tîm cyllid a grantiau myfyrwyr yn anfon neges e-bost atoch fis cyn y disgwylir i chi ddechrau eich LCDY. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys manylion am sut gallwch chi hawlio ad-daliad am unrhyw gostau teithio a oedd yn fwy na'r LCDY cychwynnol a ddyfarnwyd i chi eisoes. Bydd y neges e-bost hon hefyd yn cynnwys copi o'r Cynllun Teithio, y Ffurflen Hawlio Costau Teithio ac arweiniad am sut i'w llenwi.

Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am fwrsariau neu ad-daliad o gostau teithio, cysylltwch â'n tîm cyllid a grantiau myfyrwyr, sef ariannumyfyrwyrgrantiau@gofalcymdeithasol.cymru neu ffoniwch ni ar **029 2078 0698**.



Eich cynorthwydd cofrestru

Ysgrifennwyd eich cynorthwydd cofrestru ar sail cwestiynau a ofynnwyd i'n staff. Os oes gennych gwestiwn yr hoffech iddo ymddangos, cysylltwch â ni: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**

A allaf i ddefnyddio GCCarlein ar fy ffôn symudol?



Gallwch! Mae **GCCarlein** wedi cael ei ddatblygu i weithio ar ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen, sy'n golygu y gallwch fewngofnodi'n hawdd ar unrhyw adeg.

Sut ydw i'n talu fy ffioedd?



Y ffordd hawsaf a mwyaf cyfleus o dalu eich ffioedd yw trwy Ddebyd Uniongyrchol, bydd y Warrant Debyd Uniongyrchol yn rhoi sicrwydd i chi. Gallwch ddechrau Debyd Uniongyrchol newydd, neu ddewis talu â cherdyn credyd neu ddebyd ar-lein yn eich cyfrif **GCCarlein**.

Hoffwn fewngofnodi yn GCCarlein a dydw i ddim yn gallu cofio fy nghyfrinair – allwch chi helpu?



Gwyddom y gall fod yn anodd cofio cyfrinair, felly rydym wedi ychwanegu opsiwn 'wedi anghofio'ch cyfrinair' ar sgrin mewngofnodi **GCCarlein**.

Hoffwn wybod mwy am fy maes gwaith. A yw hyn yn rhywbeth y gallwch chi helpu ag ef?



Ydy! Mae gennym lawer o wybodaeth ar ein gwefan **gofalcymdeithasol.cymru**. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth yn ein hadroddiadau blynyddol am y gweithlu cofrestredig hefyd.

Beth mae angen i mi ei wneud i ddiweddarau fy manylion fel fy nghyfeiriad e-bost neu gyfeiriad cartref?



Gallwch ddiweddarau eich manylion yn gyflym a hawdd, a gellir gwneud hyn trwy fewngofnodi i'ch cyfrif **GCCarlein**.

Sut ydw i'n profi fy mod i wedi cofrestru?



Gallwch weld eich statws a'ch manylion cofrestru amser real yn eich cyfrif **GCCarlein** trwy glicio ar y ddewislen ar yr ochr chwith, a dewis 'Fy mhrawf o gofrestriad'. Gall pobl chwilio amdanoch ar y Gofrestr gyhoeddus ar ein gwefan hefyd.

Sut gallaf i anfon fy nogfennau gwiriedig at y tîm cofrestru?



Gellir sganio a llwytho eich dogfennau i'ch cyfrif **GCCarlein**, neu'u hanfon fel atodiad e-bost i **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**

Ble gallaf i ddod o hyd i'm rhif cofrestru?



Wedi i chi gofrestru, gallwch ddod o hyd i'ch rhif cofrestru mewn llawer o leoedd yn eich cyfrif **GCCarlein**. Er enghraifft, wedi i chi fewngofnodi, bydd eich rhif cofrestru yn ymddangos ar y bar ar y brig o dan eich enw.

Mae gen i swydd arall ym maes gofal cymdeithasol, yn ogystal â bod yn fyfyrwr gofal cymdeithasol. A oes angen i mi gofrestru eto ar gyfer y rôl hon?



Os yw eich swydd gofal cymdeithasol mewn rôl y mae **angen cofrestru** ar ei chyfer, bydd angen i chi wneud cais ar wahân i gofrestru i ymarfer yn y rôl honno.

Pryd ydw i'n adnewyddu fy nghofrestriad?



Nid oes angen i fyfyrwyr adnewyddu eu cofrestriad. Fel myfyrwr, bydd angen i chi dalu ffi am bob blwyddyn y byddwch yn aros ar y Gofrestr. Wedi i chi gymhwyso, bydd eich enw'n cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr a byddwch yn cael eich gwahodd i wneud cais fel gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso.

Mae gen i gwestiynau am fy mwrsari. Gyda phwy ydw i'n cysylltu i gael gwybod mwy?



Gallwch anfon unrhyw gwestiynau am eich bwrsari at **ariannumyfywrgrantiau@gofalcymdeithasol.cymru**. Mae gennym dîm arbenigol sy'n rheoli ein cyllid a'n grantiau myfyrwyr a fydd yn hapus i'ch helpu.

Mwy na geiriau

Mae **Mwy na geiriau**, sef Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal wneud yn siŵr eu bod yn gallu mynd ati i gynnis gwasanaethau gofal yn Gymraeg i'r un safon â gwasanaethau gofal yn Saesneg.

Elfen hanfodol o'r strategaeth hon yw'r 'Cynnig Rhagweithiol'. O'i roi yn syml, mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu bod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu i'r rheiny sydd ei angen heb iddynt orfod gofyn amdano.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu pecyn am ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol a gellir ei weld isod. Mae'n dangos i chi nad oes rhaid i chi siarad Cymraeg yn rhugl i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol i bobl.

gov.wales/docs/dhss/publications/150928activeoffersocialservicescy.pdf

Rydym hefyd wedi creu adnoddau ar gyfer gwasanaethau sy'n dymuno gwneud yn siŵr eu bod yn darparu gwasanaeth sy'n ateb anghenion siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â gwybodaeth am adnoddau a chanllawiau dysgu a ddarperir gan wasanaethau eraill.

gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/gweithio-yn-gymraeg



Cwblhau eich cwrs

Bydd eich prifysgol yn dweud wrthym pan fydd eich cwrs wedi dod i ben, a byddwn yn dileu eich enw o'r rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

Os ydych wedi llwyddo yn eich cwrs, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol cymwys.

Nid yw cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol **yn digwydd fel mater o drefn**, a bydd rhaid i chi ddangos eich cymhwysedd, ymddygiad a chymeriad da. Gallwch wneud cais yn eich cyfrif GCCarlein a thalu ffi.

Gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol

Yn adran adnoddau ein gwefan, gallwch fynd at ystod o gyhoeddiadau, clipiau fideo a dolenni ar-lein. Gallwch chwilio am air allweddol hefyd, neu ddewis categori, a phori: **gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau**. Gallwch ddod o hyd i ddolenni at rai o'n cyhoeddiadau defnyddiol yma:

Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol – adnoddau

Adnoddau cofrestru GCCarlein

Dyletswydd gonestrwydd

Adroddiadau data cofrestru cyfredol

Adroddiadau data cofrestru hanesyddol

Y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso

Y Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Dysgu a datblygu

Man Dysgu

Rheolau addasrwydd i ymarfer

Adrodd gorfodol ar anffurfio organau cenhedlu benywod



Manylion cyswllt

Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan: **gofalcymdeithasol.cymru**

E-bost: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**
aiy@gofalcymdeithasol.cymru

 **[@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)**  **[Care Careers Wales](https://www.facebook.com/CareCareersWales)**

Gallwch siarad â ni o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm.

Llinell gymorth ar gyfer cofrestru: **029 2078 0646**

Addasrwydd i ymarfer: **029 2078 0648**

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru | Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru

© (2018) Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.

ISBN: 978-1-911463-82-5

Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyluniwyd gan Escape to Design escapetodesign.co.uk

